




Ministry  
of Justice

# Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth i'r  
ymgyngoriad ar "Alinio'r Ffioedd ar  
gyfer Hawliadau Sifil am Arian a  
Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar  
Bapur"

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 8 Mawrth 2021







Ministry  
of Justice

## **Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd**

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar Bapur"

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>**



# Cynnwys

## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Cwynion neu sylwadau

## Cefndir

## Crynodeb o'r ymatebion

## Ymatebion i gwestiynau penodol

## Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Asesiad Effaith

Cydraddoldeb

Prawf o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## Casgliad a'r camau nesaf

## Egwyddorion ymgynghori

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Error! Bookmark not defined.

**Error! Bookmark not defined.**

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

**Error! Bookmark not defined.**

**Error! Bookmark not defined.**

**Error! Bookmark not defined.**

**22**

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Arlein ac ar Bapur"

# Cyflwyniad a manylion cysylltu

Adroddiad ôl-ymgyngori ar gyfer y papur ymgynghori "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar Bapur" yw hwn.

Bydd yn rhoi sylw i:

- gefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godir yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori ar gael drwy gysylltu â'r **Tîm Polisi Ffioedd** yn y cyfeiriad isod:

## **Fees Policy Team**

Ministry of Justice  
102 Petty France  
London SW1H 9AJ

**E-bost:** [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

I gael fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen, cysylltwch â [mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)

## **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Arlein ac ar Bapur"



## Cefndir

1. Mae'r ddadl dros adolygu'n rheolaidd y ffordd rydym yn codi ffioedd llys am hawliadau sifil am arian a hawliadau meddiannu ar-lein wedi'i seilio'n gadarn ar yr angen i sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn cael ei ariannu'n briodol gan warchod mynediad at gyfiawnder fel yr egwyddor hollbwysig ar yr un pryd. Mae mynediad i gyfiawnder yn holl bwysig er mwyn cynnal democratiaeth effeithiol a gweithredol, gan helpu i gynnal trefn gymdeithasol ac economi effeithiol.
2. Mewn amrywiaeth mawr o amgylchiadau, mae llysoedd a thriwlynlysoedd yn darparu'r cyfle i unigolion a busnesau orfodi eu hawliau drwy ddelio ag achosion yn deg, yn gyflym ac â sicrwydd, gan arwain at ganlyniadau cyfiawn. Er gwaethaf yr amgylchiadau eithriadol sy'n codi o'r pandemig a'r holl heriau newydd y mae wedi eu cyflwyno, mae'r Llywodraeth yn glynu wrth ei hymrwymiad i sicrhau bod llysoedd a thriwlynlysoedd yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, gan warchod mynediad at gyfiawnder ac ysgafnu'r baich ar drethdalwyr.
3. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Ar-lein ac ar Bapur" ar 20 Tachwedd 2020. Gwahoddai sylwadau ar y cynnig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddileu'r disgownt ar-lein a roddir ar ffioedd cyflwyno i ddefnyddwyr Canolfan Fusnes y Llys Sirol (CCBC), Hawliadau am Arian Ar-lein (MCOL), Hawliadau Meddiannu Ar-lein (PCOL), a Hawliadau Sifil am Arian Ar-lein (OCMC), a'r disgownt a'r esemptiad ar ffioedd sy'n weithredol ar gyfer rhai ffioedd gorfodi. Saif nodau'r cynnig yn fras ar yr angen i:
  - Helpu i sicrhau bod gan lysoedd a thriwlynlysoedd yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu gwasanaethau hanfodol
  - Sicrhau bod y rhai sy'n gallu talu ffi, yn talu'r un ffi heb ystyried a wnaethant gyflwyno eu hawliad ar-lein ynteu drwy'r trywydd papur
  - Symleiddio'r strwythur ffioedd presennol
4. Cred y Llywodraeth y ceir cryn gyfiawnhad dros alinio ffioedd hawliadau sifil am arian a hawliadau meddiannu ar-lein ac ar bapur. Disgwylir i'r cynnig hwn wneud cyfraniad sylweddol at gynlluniau ariannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Amcangyfrifir y bydd yn darparu rhwng £9 a £25 miliwn y flwyddyn mewn incwm ychwanegol, gan leihau cost GLITEM i drethdalwyr a chyfrannu at ariannu ein llysoedd er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder i bawb.

5. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn gan ddefnyddwyr system y llysoedd sifil, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, a phawb sydd â diddordeb yn system y llysoedd sifil. Mae'n gosod cyfres o gwestiynau gyda'r nod o ddeall safbwyntiau defnyddwyr y llysoedd ar yr alinio arfaethedig. Cafodd yr ymgynghoriad ei ddiwygio i gynnwys un ffi ychwanegol ar 11 Rhagfyr, a hysbyswyd y rhanddeiliaid o'r ychwanegiad drwy e-bost. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 30 Rhagfyr 2020, ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth ar ôl iddi ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddaeth i law gan yr holl randdeiliaid.
6. Cafodd yr Asesiad o Effaith a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ei ddiweddarau i roi ystyriaeth i'r ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyhoeddwyd yr Asesiad o Effaith wedi'i ddiweddarau ochr yn ochr â'r ddogfen hon.
7. Mae papur ymateb ar y Gymraeg i'w weld yn <https://consult.justice.gov.uk/>
8. Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodlen A.

## Crynodeb o'r ymatebion

9. Daeth cyfanswm o 22 o ymatebion i'r papur ymgynghori i law. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth y sector cyfreithiol, y sector preifat a'r trydydd sector. Daeth ymatebion pellach i law gan gwmnïau adennill dyledion, cymdeithasau rhanddeiliaid yn ogystal ag oddi wrth ddinasyddion unigol. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn Atodlen A.
10. Fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr godi pryderon am ffioedd uwch fel egwyddor yn hytrach nag ar destun penodol yr ymgynghoriad hwn, sef alinio ffioedd hawliadau sifil am arian a hawliadau meddiannu ar-lein ac ar papur. Nod cyffredinol yr ymarferiad ymgynghori hwn a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd deall lefel y gefnogaeth ymysg defnyddwyr llysoedd i'r polisi penodol hwn. Yn fwy penodol, ceisiodd y Llywodraeth gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid am rinweddau'r cynnig, yn ogystal â'u hasesiadau o sut gallai'r alinio arfaethedig effeithio arnynt hwy. Rhoddwyd sylw penodol i effeithiau posibl y cynnig ar y galw ac ar ddefnyddwyr llysoedd, hynny yw, newid yn nifer yr hawliadau sy'n digwydd yn uniongyrchol yn sgil alinio'r ffioedd ar-lein a'r ffioedd papur.
11. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, sef y rheini o'r sector cyfreithiol a'r sector credyd, yn anghytuno â'r bwriad i alinio'r ffioedd. Dadleuent nad yw'r ffioedd arfaethedig yn cynrychioli costau achosion, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw hawliadau gwerth uwch o anghenraid yn cyfateb i achosion hirach na mwy cymhleth. I'r perwyl hwn, mae rhai ymatebwyr yn dadlau y gallai hawlwyd hawliadau uchel eu gwerth gael eu hatal rhag mynd ar drywydd hawliad oherwydd y gost, ac y gallai hynny felly rwystro mynediad i gyfiawnder. Yn eu barn nhw, gallai hyn achosi newidiadau yn ymddygiad hawlwyd mewn ymateb i lefel y ffioedd, gan arwain at y perygl bod cwmnïau casglu dyledion yn gwahaniaethu rhwng dyledwyr, gan fynd ar drywydd rhai y mae arnynt symiau llai yn amlach na rhai y mae arnynt symiau mwy.
12. Teimlai'r ymatebwyr hefyd nad oedd modd cyfiawnhau'r aliniad arfaethedig mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mynegwyd pryderon penodol ynglŷn â phrosesau gwarantau rheolaeth; dadleuai rhai ymatebwyr eu bod yn cynnig gwasanaeth gwael oherwydd bod y gwasanaeth beilliaid llys sirol eisoes dan bwysau ac yn methu â gorfodi gwarantau yn amserol. Yn ogystal, byddai codi'r ffioedd, yn eu barn nhw, yn arwain at fod llai o hawliadau'n cael eu cyflwyno ac at gynydd yn nyledion dyledwyr.
13. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r egwyddor o ffioedd uwch yn gyfan gwbl. Dadleuent fod llysoedd sifil yn hanfodol i gymdeithas ddemocrataidd ac na ddylent adennill mwy na chost y gwasanaeth a ddarparant. Yn

eu barn nhw, nid oes dadl resymegol dros godi mwy na chost y broses ar rai defnyddwyr er mwyn sybsideiddio defnyddwyr eraill y llysoedd. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai'r cynnig i alinio'r ffioedd fod yn fwy derbyniol pe byddai unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei ail-fuddsoddi i wella'r gwasanaethau yr effeithir arnynt.

14. I'r gwrthwyneb, roedd nifer fechan o'r ymatebwyr, sef y rheini o'r sector cymorth cyfreithiol, yn gefnogol i'r alinio arfaethedig. Dadleuent y byddai'n annheg codi ffi uwch ar ddefnyddwyr papur na defnyddwyr ar-lein, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod yr amcan y tu ôl i'r disgownt ar-lein wedi cael ei gyflawni. Fe wnaeth yr ymatebwyr a oedd o blaid alinio hefyd grybwyll bod defnyddwyr papur yn aml yn dewis y trywydd hwnnw gan nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd a'u bod felly, ar hyn o bryd, dan anfantais.

### **Crynodeb o ymateb y Llywodraeth**

15. Cred y Llywodraeth y ceir cryn gyfiawnhad i fwrw ymlaen ag alinio ffioedd hawliadau sifil am arian a hawliadau meddiannu ar-lein ac ar bapur. Mae'r incwm a geir o'r ffioedd yn cyfateb i lai na hanner y gost o redeg llysoedd a thriwlynlysoedd. Yn 2019/20, er enghraifft, cafwyd incwm net drwy ffioedd o £724m o'i gymharu â chostau rhedeg GLITEM o £2bn; mae hwn yn fwlch aruthrol sy'n effeithio ar drethdalwyr ac yn atal GLITEM rhag cael ei redeg yn effeithiol ac yn effeithlon, gan ei gwneud yn anos sicrhau mynediad at gyfiawnder.
16. Rydyn ni'n credu ei bod yn iawn i'r defnyddwyr llys hynny sy'n gallu fforddio cyfrannu mwy at weithrediadau GLITEM wneud hynny. Byddai'r cynnig hwn yn darparu incwm ychwanegol y mae gwir ei angen, a byddai'n cael ei fuddsoddi'n ôl i wneud y gwasanaeth llysoedd a thriwlynlysoedd yn fwy effeithlon ac effeithiol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Llywodraeth hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi GLITEM. Mae hyn yn cynnwys £337 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys £275 miliwn i ddelio â'r effaith ar y galw i lawr y gadwyn i sefydlu 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol a chlirio'r ôl-groniadau a achoswyd gan Covid-19 yn Llysoedd y Goron. Rydyn ni hefyd yn buddsoddi £76 miliwn i gynyddu capasiti triwlynlysoedd cyflogaeth a llysoedd teulu i glirio'r ôl-groniadau, £43 miliwn i sicrhau bod llysoedd a charchardai yn ddiogel rhag Covid; a £105 miliwn i wneud gwelliannau yn ystâd y llysoedd.
17. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn ag ansawdd gwasanaeth gorfodi beiliaid y llys sirol. Yn benodol, rydym yn cydnabod yr anhawster y mae defnyddwyr y gwasanaeth yn ei gael ar hyn o bryd i orfodi gwarantau ar amser, a'r posibilrwydd bod dyledion cynyddol yn cael eu pasio ymlaen i ddyledwyr. I gydnabod y pryderon hynny, ac yn naws cysoni'r strwythur ffioedd, ar ôl ystyried yn ofalus, rydym wedi penderfynu peidio ag alinio'r ffi ar-lein o £77 a'r ffi papur o £110

(Ffi 8.1 yn y cynnig). Yn hytrach, byddwn yn gweithredu cynnydd ar sail chwyddiant o 7.7% wedi'i ôl-ddyddio i 2016 (pan newidiwyd y ffi hon ddiwethaf) a byddwn felly yn cysoni'r ffi ar-lein a'r ffi papur i lefel newydd o £83.

18. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai o'r ymatebwyr yn bryderus nad oedd y ffioedd a ystyrir dan y cynnig hwn yn gydnaws o gwbl â chost y prosesau y maent yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, dan y pŵer a geir yn adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, caniateir i'r Arglwydd Ganghellor osod ffioedd llysoedd ar lefel sy'n uwch na chost y broses. Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad ar wahân ar ddefnyddio'r pŵer hwn i bennu'r ffioedd penodol hyn yn ei ymgynghoriad yn 2015 "Ffioedd Llysoedd a Thriwlynlysoedd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y cynigion pellach ynglŷn â ffioedd".<sup>1</sup> At hynny, drwy osod rhai ffioedd llysoedd yn uwch na'r gost, mae'r Llywodraeth yn gallu traws-sybsideiddio rhannau eraill o'r system llysoedd a thriwlynlysoedd gan sicrhau ar yr un pryd fod y system yn effeithiol ac yn effeithlon a lleihau'r gost i drethdalwyr. Er enghraifft, ni chodir ffi lys ar ddefnyddwyr bregus sy'n ceisio gorchmynion peidio ag ymyrryd o ganlyniad i gam-drin domestig; nac ar yr achosion hynny a ddaw gerbron triwlynlysoedd Haen Gyntaf sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.
19. Yn ogystal â rhai o'r ymatebion negyddol a gafwyd am sylwedd y cynnig, dywedodd rhai ymatebwyr fod y cyfnod ymgynghori yn rhy fyr. Mae'r Llywodraeth yn anghytuno bod y cyfnod ymgynghori yn annigonol i gasglu safbwyntiau gan y rhanddeiliaid. Mae'r egwyddorion ymgynghori a nodwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn datgan y dylai ymgynghoriad bara am gyfnod cymesur, gan roi ystyriaeth i natur ac effaith y cynnig. Ar ôl ystyried yn ofalus, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad 6 wythnos oherwydd:
- Bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar fesur cymharol syml, sef y bwriad i alinio'r ffioedd ar-lein a'r ffioedd papur ar gyfer y nifer fechan o ffioedd lle mae gwahaniaeth i'w gael ar hyn o bryd.
  - Datblygodd yr ymgynghoriad oddi ar ymgynghoriad 2015 "Ffioedd Llysoedd a Thriwlynlysoedd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y cynigion pellach ynglŷn â ffioedd", felly roedd llawer o'r ymgynghoreion eisoes yn gyfarwydd â'r pwerau cyfreithiol a'r mathau o faterion y mae gweinidogion yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth bennu ffioedd.

---

<sup>1</sup> "Ffioedd Llysoedd a Thriwlynlysoedd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y cynigion pellach ynglŷn â ffioedd", y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Rhagfyr 2015. Ar gael yn [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/515460/further-fees-proposals-gov-response-consultation.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/515460/further-fees-proposals-gov-response-consultation.pdf)

- Hefyd, cafodd y rhanddeiliaid eu hysbysu cyn gynted ag y lanswyd yr ymgynghoriad.

20. Nid yw'r Llywodraeth yn derbyn y byddai'r alinio arfaethedig yn atal mynediad at gyfiawnder. Mae ymchwil a wnaed yn flaenorol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y mater hwn wedi dangos yn gyson mai ystyriaeth eilaidd yw ffioedd yn y penderfyniad i gyfreitha, gyda'r posibilrwydd o lwyddiant a'r tebygolrwydd o adennill y ddyled yn brif ystyriaethau.<sup>2</sup> Cyfran fechan o'r holl gostau cyfreitha yw'r ffioedd ac, mewn achosion sifil llwyddiannus, gellir eu hadennill oddi wrth y sawl sy'n colli. Hefyd:

- Cynnil a chymharol fach yw'r aliniad ar gyfer hawliau dan £10,000 (sydd i gyfrif am 98% o'r holl hawliadau ar hyn o bryd) gyda'r gwahaniaeth rhwng ffioedd ar-lein a ffioedd papur yn amrywio o leiafswm o £10 i uchafswm o £45;
- Mae ffioedd cyflwyno yn gymesur â'r swm dan sylw;
- Mae Help gyda Ffioedd (HwF) ar gael i rai sy'n gymwys; a
- Gellir dwyn hawliadau penodol am arian dan gytundeb ffi amodol "dim ennill dim ffi" i rai sy'n gymwys

21. Am y rhesymau hyn, ni chred y Llywodraeth y byddai'r aliniad arfaethedig yn rhwystro mynediad at gyfiawnder.

---

<sup>2</sup> Rôl ffioedd llys yn effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr i ddwyn achosion gerbron y llys sifil a'r llys teulu: astudiaeth ansoddol o hawlwr ac ymgeiswyr, 2014. ([https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/299804/role-of-court-fees-in-decisions-to-bring-cases-to-courts.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/299804/role-of-court-fees-in-decisions-to-bring-cases-to-courts.pdf))

Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Arlein ac ar Bapur"

## Ymatebion i gwestiynau penodol

**1. Yn sgil ein cynnig fel y'i nodwyd ym Mhennod Dau, ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai ffioedd cyflwyno ar-lein ac ar bapur fod yr un peth? Rhowch resymau dros eich ateb.**

22. Cawsom 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 17 (77%) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r egwyddor y dylai'r ffioedd ar gyfer hawliadau ar-lein a hawliadau papur fod yr un peth. Adlewyrchai mwyafrif helaeth y safbwyntiau bedwar o'r prif feysydd a oedd yn achosi pryder. I ddechrau, bod hawliadau a gyflwynir ar-lein yn rhatach i'w prosesu, ac felly y dylai'r ffioedd adlewyrchu'r gost gymedrol honno; yn ail, bod rhai cwmnïau wedi gwneud ymchwiliadau i ddigideiddio eu seilweithiau i ymateb i ymgyrch y Llywodraeth ar brosesau ar-lein; yn drydydd, na ddylai unrhyw gynnydd mewn ffioedd ond digwydd ar ôl gwneud adolygiad llawn o'r strwythur ffioedd cyflawn; ac yn bedwerydd, nad yw defnyddwyr y gwasanaeth beilliaid llys sirol yn fodlon â'r gwasanaeth a gânt ar hyn o bryd.

23. I'r gwrthwyneb, cytunai 5 (22%) o'r ymatebwyr â'r egwyddor o alinio ffioedd hawliadau ar-lein a hawliadau papur, gan gyfeirio'n bennaf at ddau reswm. Yn gyntaf, na ddylai unigolion bregus nad oes ganddynt o bosibl fynediad i wasanaethau ar-lein gael eu cosbi am gyflwyno hawliadau drwy'r trywydd papur; yn ail, ei bod yn annheg drwyddi draw codi ffi uwch ar ddefnyddwyr papur na'u cyfoedion ar-lein ac ystyried bod yr amcan y tu ôl i'r disgownt ar-lein wedi cael ei gyflawni.

### Ymateb y Llywodraeth

24. Gan gyfeirio at y rhan fwyaf o'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi bod hawliadau ar-lein yn haws ac yn gyflymach i'w prosesu, ond mae'n anghytuno na ddylid dileu'r disgownt presennol a roddir i hawliadau meddiannu a hawliadau sifil am arian ar-lein. Rhoddwyd y disgownt ar-lein yn wreiddiol i gymell defnyddwyr i gyflwyno hawliadau drwy'r platfformau ar-lein, ac mae'n ymddygiad sydd yn awr yn norm i oddeutu 90% ohonynt. O'r herwydd, nid oes angen defnyddio'r un cymhelliant ariannol mwyach. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn dal i ail-fuddsoddi'r incwm ychwanegol ar draws ein llysoedd i sicrhau effeithiolrwydd ein gwasanaethau a bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei warchod i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus.

25. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai cwmnïau wedi gwneud buddsoddiadau i symud at brosesau ar-lein. Nid yw ein hymrwymiad i ddal i wella platfformau ar-lein wedi newid. At hynny, mae gwaith yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar draws yr holl brosesau meddiannu a gorfodi, a chaiff y rhain eu cwmpasu dan waith diwygio sifil.



Er enghraifft, mae GLITEM wrthi'n cynnal adolygiad o Ganolfannau Cymorth Gwarantau Rheolaeth (WoCSC) ar ôl eu cyflwyno yn 2019. Bydd yr adolygiad yn ystyried gwelliannau i brosesau a chysylltiadau â dyledwyr a chredydwyr gyda'r nod o wella'r gwasanaeth beiliaid llys sirol.

26. O safbwynt adolygu'r strwythur ffioedd cyflawn, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y strwythur ffioedd sydd ar waith yn gymhleth ac yn amrywiol. Byddwn yn dal i ystyried hyn fel rhan o'n gwaith parhaus ar y polisi ffioedd.

## **2. Ydych chi'n cytuno y dylid alinio ffioedd cyflwyno gostyngol ar-lein MCOL ac OCMC gyda'r ffioedd cyflwyno ar bapur? Rhowch resymau dros eich ateb.**

27. Cawsom 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 20 (91%) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r alinio arfaethedig. Cyfeiriai'r rhan fwyaf o'r atebion a gafwyd yn ôl at Gwestiwn 1 (uchod), gyda rhai ychwanegiadau nodedig. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r ffi bapur gael ei halinio i lefel y ffi ar-lein, yn hytrach na fel arall, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod y ffioedd hynny eisoes yn uwch. I'r perwyl hwn, gwrthwynebai ymatebwyr eraill yr egwyddor o draws-sybsideiddio, gan ddadlau ei fod yn cyfrif fel treth ac felly fod angen craffu'n ymhellach arno. Yn olaf, dadleuai rhai ymatebwyr y byddai alinio'r ffioedd ar-lein a'r ffioedd papur yn cael effaith negyddol ar ddyledwyr, gyda rhai cwmnïau'n dewis peidio â mynd ar drywydd dyledion yn amserol gan adael iddynt gronni.

28. Fe wnaeth y rhai a gytunai â'r alinio arfaethedig (2 ymatebydd - 8%) gyfeirio'n ôl at yr ateb a ddarparwyd ar gyfer Cwestiwn 1.

### **Ymateb y Llywodraeth**

29. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus ond yn y pendraw nid yw'n cytuno â'r awgrym y dylid gostwng ffioedd papur i lefel gyfredol y ffioedd ar-lein. Fel y nodir uchod, gosodwyd y lefel ffioedd is ar gyfer hawlwyd ar-lein i gymell defnyddwyr i ddefnyddio'r platfformau ar-lein, a bod hynny'n awr wedi dod yn norm i oddeutu 90% o ddefnyddwyr. Yn ogystal, byddai alinio ffioedd papur i lefel ffioedd ar-lein yn arwain at golled o £5m o incwm bob blwyddyn, a byddai hynny yn llesteirio ein hymdrechion i godi incwm ychwanegol i gyfrannu at y bwlch ariannu rhwng yr incwm a geir o ffioedd ar hyn o bryd a'r gost o redeg system lysoedd effeithiol ac effeithlon.

30. Yn sylfaenol i'r mater hwn y mae'r cwestiwn o ffioedd uwch a thraws-sybsideiddio a godwyd gan rai ymatebwyr. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r pwerau a geir yn Adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 yn caniatáu i ffioedd gael eu pennu yn uwch na'r gost, os yw'r Arglwydd Ganghellor yn ystyried yn benodol sefyllfa ariannol y llysoedd ac yn benodol y costau yr â'r llysoedd iddynt nad yw'r incwm presennol o ffioedd yn ddigon i dalu amdanynt. At hynny, ni ellir ond ymarfer y pŵer a roddir i osod ffi uwch drwy offeryn cadarnhaol, fel rydym

wedi'i nodi ym mharagraff 31 o'n hymgyngghoriad. Felly, bydd yr egwyddor gyffredinol o godi ffi uwch a'r mater unigol o ymarfer y pŵer hwnnw yn cael ei drafod gan y Senedd.

31. Wrth ddylunio'r polisi hwn, mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried tegwch, sy'n golygu na ddylai rhai nad oes ganddynt fynediad i blatfformau ar-lein, ac sydd felly'n cyflwyno hawliadau papur, gael eu cosbi am wneud hynny. Mae'r un rhesymeg yn berthnasol i ddyledwyr, y byddai eu dyled yn cynyddu neu'n lleihau yn unol â'r math o gais a ddefnyddia'r hawlwr.

32. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus yr effaith y byddai'r alinio arfaethedig yn ei chael ar ddyledwyr ac mae'n dal wedi ymrwymo i sicrhau bod unigolion sy'n fregus a dan anfantais yn ariannol yn gallu cael yr help angenrheidiol ar draws y system gyfiawnder. Er enghraifft, gall dyledwyr wneud cais i Farnwr roi'r dyfarniad o'r neilltu os credant fod y dyfarniad wedi'i gofnodi'n anghywir neu os nad yw'r ddyled yn ddyledus. Os yw'r Barnwr yn dyfarnu bod y ddyled yn dal yn ddyledus, mae'n bosibl y gellir cytuno ar gynllun rhandaliadau i helpu'r dyledwr i gyflawni ei rwymedigaethau. Gellir gwneud hyn hefyd drwy wneud cais papur i'r llys. Yn ogystal, bydd Trysorlys Ei Mawrhydi (HMT) yn lansio ym mis Mai y "Cynllun Seibiant Dyledion", a fydd yn caniatáu i ddyledwr gael cyfnod 60 diwrnod o 'saib' i wneud cytundeb ad-dalu â'i gredydwyr.

### **3. Ydych chi'n cytuno y dylid alinio'r ffi ar-lein ostyngol i ddefnyddwyr PCOL â'r ffi gyfatebol ar bapur? Rhowch resymau dros eich atebion.**

33. Cawsom 20 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 18 (90%) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r alinio ar gyfer PCOL. Un ymatebydd yn unig a roddodd sylw ychwanegol gan ddadlau y dylid gwella'r platfform. Cyfeiriodd pob un o'r ymatebwyr eraill at yr atebion a roesant i'r cwestiynau blaenorol.

### **4. Ydych chi'n cytuno y dylid alinio'r ffi ar-lein ostyngol ar gyfer gwarant reoli â'r ffi ar bapur? Rhowch resymau dros eich atebion.**

34. Cawsom 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 21 (91%) o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylid alinio'r ffioedd ar gyfer gwarant rheolaeth. Dadleuai'r mwyafrif helaeth o'r rheini a ddarparodd reswm am eu hateb fod y gwasanaeth a gynigir yn anfoddhaol i raddau helaeth, ac y gallai cynyddu'r ffi (i rai sy'n ymgeisio ar-lein) eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth yn gyfan gwbl. Honnont nad yw'r arafwch yn gorfodi gwarantau rheolaeth, ynghyd â safon cyffredinol y gwasanaeth a gânt gan feiliaid, yn cyfiawnhau cynnydd o 43% yn y ffi i ddefnyddwyr ar-lein.

## Ymateb y Llywodraeth

35. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y problemau y mae defnyddwyr yn eu cael â gorfodi gwarantau rheolaeth. Mae hefyd yn gwerthfawrogi nad yw'r camau a gymerwyd i roi sylw i'r arafwch yn gorfodi gwarantau rheolaeth, megis y Ganolfan Cymorth Gwarantau Rheolaeth (WoCSC), eto wedi rhoi i ddefnyddwyr drywydd boddhaol i adennill dyledion yn brydlon. Am y rhesymau hyn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio ag alinio'r ffi sy'n daladwy gan ddefnyddwyr ar-lein i orfodi gwarantau rheolaeth â'r lefel gyfatebol ar gyfer defnyddwyr papur. Yn hytrach, byddwn yn gweithredu cynnydd yn ôl chwyddiant o 7.7% i'r ffi ar-lein, wedi'i ddyddio i Awst 2016, pan newidiwyd y ffi ddiwethaf, gan gyfuno'r ffi bapur a'r ffi ar-lein ar lefel newydd o £83.

36. O safbwynt y WoCSC, fe wnaeth GLITEM gychwyn darn o waith gyda'u Tîm Ymchwil a Deall Cwsmeriaid i edrych yn fanwl ar y canolfannau a gwneud "archwiliad iechyd" gyda'r nod o wella'r gwasanaeth a gynigiant. Cynhyrchwyd adroddiad mewnol a fwydwyd yn ddiweddarach i gynllun gweithredu. Bydd hyn yn llywio'r gwaith y bydd GLITEM yn ei wneud â defnyddwyr i asesu effaith WoCSC ar ddyledwyr a chredydwyr ac i wneud gwelliannau i'r broses a'r gefnogaeth a ddarperir.

## 5. A ydych yn cytuno y dylid dileu'r eithriad ar gyfer defnyddwyr y ganolfan sy'n gofyn am ymgais arall i weithredu gwarant? Rhowch resymau dros eich atebion.

37. Cawsom gyfanswm o 17 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 16 (94%) o ymatebwyr yn anghytuno â dileu'r eithriad ar gyfer gwneud ymgais arall i weithredu gwarant. I egluro eu hanghytundeb, cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr at eu hatebion blaenorol, gyda chwpl o ddadleuon ychwanegol yn cael eu gwneud. Tynnodd cwpl o'r ymatebwyr sylw at y ffaith nad oes i bob golwg ddim cyfiawnhad dros ddileu'r eithriad, ac nad oedd y cynnig ar gyfer y ffi benodol hon felly'n ddealladwy. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y cynnydd yn y gost am ail-weithredu gwarant, gan ailadrodd nad yw ansawdd y gwasanaeth a gynigir yn cyfiawnhau'r cynnydd yn y ffi.

## Ymateb y Llywodraeth

38. Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno na ellir cyfiawnhau'r cynnig i ddileu'r eithriad ar gyfer ail-weithredu gwarant yn yr ymgynghoriad. Dan Orchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008, mae ffi 8.2 yn darparu eithriad ar gyfer achosion a gaiff eu dwyn drwy CCBC am gais am ymgais arall i weithredu gwarant mewn cyfeiriad newydd ac ôl cael hysbysiad o'r rheswm am beidio â gweithredu; codir ffi o £33 yn hytrach am geisiadau papur. O'r herwydd, mae'r eithriad cyntaf a ddarperir gan ffi 8.2 yn syrthio'n union o fewn y rhesymeg polisi a ddefnyddir yn y cynnig hwn.

39. At hynny, nid oes gwahaniaeth mawr yn y broses rhwng cais ar-lein drwy CCBC a chais papur. Gan nad yw CCBC yn prosesu'r ceisiadau hyn, caiff y rhain yn hytrach

eu trosglwyddo i'r llys lleol i gael eu hystyried fel ceisiadau papur. Mae angen i'r llysoedd ganfod ai achos drwy CCBC yw'r cais am ail-weithredu ynteu achos papur er mwyn gwybod a oes ffi yn daladwy dan ffi 8.2. Am y rhesymau hyn, mae'r Llywodraeth yn mynnu bod dileu'r eithriad yn gydnaws â rhesymeg gyffredinol y polisi hwn.

**6. Yn rhan o'n hasesiad o'r ymateb posibl o'r galw, byddem yn ddiolchgar o gael adborth gan ymgynghoreion ar bwysigrwydd perthynol ffactorau gwahanol wrth benderfynu a ddylid mynd ag achos i'r llys. Gall y ffactorau hyn gynnwys ffi'r llys, costau cysylltiedig eraill, tebygolrwydd llwyddiant, tebygolrwydd adennill unrhyw ddyledion, ac unrhyw gymhellion nad ydynt yn rhai ariannol megis profiad blaenorol o brosesau llys.**

40. Cawsom gyfanswm o 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai'r alinio'r arwain at gwmp mewn hawliadau oherwydd, ochr yn ochr â'r anawsterau ariannol y byddai rhai'n eu hwynebu yn sgil gadael yr UE a'r pandemig, y byddai'r gost yn rhy sylweddol. Codwyd pryderon pellach unwaith eto ynglŷn â mynediad at gyfiawnder. Honnai rhai ymatebwyr, er nad ffioedd fel arfer yw'r brif ystyriaeth wrth wneud hawliad, fod eu lefelau presennol yn cyfrannu at iddynt fod yn un o'r ystyriaethau hynny. Yn olaf, amlygodd rhai ymatebwyr unwaith eto nad yw ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn cyfiawnhau cynnydd yn y ffi.

### **Ymateb y Llywodraeth**

41. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryderon am yr effaith a gaiff yr alinio ar nifer yr hawliadau sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r dystiolaeth yn sgil cyflwyno ffioedd uwch yn 2015 yn dangos bod nifer yr hawliadau am arian y byddai'n rhaid talu ffioedd uwch amdanynt wedi syrthio ar ôl eu cyflwyno, cyn dechrau codi unwaith eto. Er hyn, erys y ffaith bod hawliadau am symiau arian dros £15,000 wyth y cant yn is yn 2019/20 (y flwyddyn olaf y mae gennym ddata cyflawn ar ei chyfer) na'r niferoedd yn 2013/14. Fodd bynnag, roedd y cynnydd yn y ffioedd yn 2015 mewn rhai achosion yn llawer mwy na'r rhai sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd (fe wnaeth y ffi am hawliad o £45,000 fwy na threblu yn 2015, tra na fyddant ond yn cynyddu 11% dan y cynigion presennol). Nid oes data ar gael ar hawliadau o dan £15,000 gan na newidiwyd y rhan fwyaf o'r ffioedd hyn yn 2015. Gan fod y berthynas rhwng ffioedd a'r galw posibl yn gymhleth iawn, ac yn absenoldeb dystiolaeth ddiffiniol o faint yr ymateb posibl yn y galw, rydym wedi ystyried tri senario gydag amrywiol ymatebion enghreifftiol yn y galw. Mae'r rhain i'w gweld yn yr Asesiad o Effaith.

42. Gan hyd yn oed ganiatáu ar gyfer niferoedd llai o hawliadau ar y dechrau, rydym yn disgwyl i'r newidiadau arfaethedig gynyddu'r incwm a geir o ffioedd. Gydol yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi dadlau mai gwarchod mynediad at gyfiawnder drwy sicrhau gwasanaeth llysoedd effeithiol ac effeithlon yw'r peth pwysicaf un, a'r rheswm

allweddol sy'n ategol i weithredu'r newidiadau arfaethedig. Fel y gwelwyd yn gynharach, mae'r bwlch presennol yng nghyllid GLITEM yn bygwth yr egwyddor hon, ac mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo o hyd i ail-fuddsoddi unrhyw incwm ychwanegol fel rhan o'n cynllun buddsoddi £1bn i gryfhau a gwella ein system gyfiawnder. Rydyn ni'n credu bod y cynnydd bychan mewn ffioedd a awgrymir yn ein cynnig yn ffordd resymol o gyflawni ein hamcan.

43. At hynny, mae'r Llywodraeth yn dadlau bod ystyriaethau tegwch hefyd yn ganolog i'r cynnig hwn. Cafodd y ffi is ar gyfer hawliadau ar-lein ei fabwysiadu'n wreiddiol fel ffordd o gymell defnyddwyr i gyflwyno'u hawliadau drwy blatfformau ar-lein; mae'r amcan hwn bellach wedi'i gyflawni'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'n iawn bod y defnyddwyr hynny na allant gael mynediad i wasanaethau ar-lein dan anfantais a bod gofyn iddynt ddal i dalu ffi uwch na hawlwy'r ar-lein. O'r herwydd, rydym yn dadlau y bydd y cynnig hwn nid yn unig yn cyfrannu at ariannu GLITEM, ond y bydd hefyd yn cyfrannu at wella tegwch y broses drwy greu un ffi gyfunol i ddefnyddwyr ar-lein a defnyddwyr papur.

**7. Ydych chi'n ystyried a fydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig? Oes unrhyw addasiadau y dylem eu hystyried i leddfu'r effaith hon? Rhowch resymau dros eich atebion.**

44. Cawsom 7 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 5 (71.5%) o ymatebwyr yn dadlau y bydd yr alinio arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig neu aelwydydd incwm isel.

**Ymateb y Llywodraeth**

45. Er na ddarparwyd dim tystiolaeth i gefnogi hyn, rhoddodd y Llywodraeth ystyriaeth ofalus i'r awgrym y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig neu aelwydydd incwm isel, ond nid yw'n cytuno. Mae hawlwy'r ar hyn o bryd yn talu ffioedd gwahanol yn ddibynnol ar a ydynt yn dechrau eu cais ar-lein neu drwy'r trywydd papur, ac fel y trafodwyd uchod, mae'r strwythur presennol yn gwahaniaethu yn erbyn rhai na ydynt neu nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai aelwydydd ag un oedolyn 65 oed a drosodd, er enghraifft, sydd â'r gyfran isaf o gysylltiadau â'r rhyngwrwd o hyd. Mae unigolion anabl hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngwrwd i gyfathrebu â chyrrff cyhoeddus. Canfu arolwg ONS yn 2020 ar fynediad i'r rhyngwrwd mai 34% o bobl sy'n cael eu cyfrif yn bobl anabl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd i "gyflwyno ffurflenni wedi'u cwblhau" i gyrrff cyhoeddus o'i gymharu â 37% o'r holl gyfranogwyr.

46. Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu nifer o gynlluniau i helpu pobl sy'n teimlo na allant fforddio dalu ffi. Er enghraifft, bydd ein cynllun Help gyda Ffioedd (HwF) yn dal i fod ar gael yn eang er mwyn i ddefnyddwyr sy'n teimlo na allant dalu'r ffi allu cyflwyno hawliad, ac y gallant hefyd wneud cais i'r cynllun hyd at 3 mis ar ôl talu'r ffi.

Mae HwF yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a chynilion yr ymgeisydd, maint y ffi ac a ydynt yn cael budd-daliadau penodol. Gallai ymgeiswyr llwyddiannus gael gostyngiad rhannol neu lwyr yn y ffi. I rai nad ydynt yn gymwys i gael HwF ond sy'n teimlo o hyd na allant fforddio'r ffi, gellir caniatáu gostyngiad hefyd y tu allan i brif asesiad HwF mewn amgylchiadau eithriadol. Caiff hyn ei ystyried fesul achos gan swyddogion y llys. Nid oes gostyngiadau ar gael ar gyfer ffioedd a delir am chwiliadau neu ddogfennau dyblyg neu gopiâu. Yn gyffredinol, nid ydynt ar gael i fusnesau.

# Asesiad o Effaith, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

## Asesiad o effaith

47. Paratowyd ymateb i'r Asesiad o Effaith cyhoeddedig ac fe'i cyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae'r Llywodraeth wedi amcangyfrif bod y cynigion yn cyfrannu incwm ychwanegol o £6m-£16m yn 2021/22, a £9-£25m o 2022/23 ymlaen.

## Cydraddoldeb

### Cyflwyniad

48. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb isod yn ystyried effaith y cynllun hwn gan y Llywodraeth i alinio ffioedd ar-lein a ffioedd papur ar gyfer hawliadau meddiannu a hawliadau sifil am arian yn erbyn y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gweler hefyd ein hymateb i Gwestiwn 7 uchod.

### Amcanion y Polisi

49. Mae ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar yr alinio arfaethedig yn disgrifio'r cefndir, a'r rhesymeg dros alinio ffioedd ar-lein yn unol â lefel eu ffioedd papur cyfatebol. Dyma brif amcanion y polisi:

- Sicrhau bod gan lysoedd a thribiwnlysoedd yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r gwasanaethau y mae cymaint o angen amdanynt
- Sicrhau bod y rhai sy'n gallu talu ffi, yn talu'r un ffi heb ystyried a wnaethant gyflwyno eu hawliad ar-lein ynteu drwy'r trywydd papur
- Symleiddio'r strwythur ffioedd presennol

50. Fel hyn, bydd y Llywodraeth yn hyrwyddo system lysoedd effeithlon ac effeithiol a fydd yn diogelu mynediad at gyfiawnder, gan roi i GLITEM ar yr un pryd yr adnoddau angenrheidiol i wynebu'r heriau nas gwelwyd eu bath o'r blaen oherwydd y pandemig.

## Dyletswyddau Cydraddoldeb

51. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn mynnu bod Gweinidogion a'r Adran, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn rhoi 'ystyriaeth ddyledus' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw fath arall o ymddygiad sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno)
- Meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno)

52. Mae rhoi "ystyriaeth ddyledus" angen cael ei ystyried yn erbyn y naw "nodwedd warchoddedig" dan y Ddeddf, sef: hil, rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

53. Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae'r cynigion polisi arfaethedig yn debygol o effeithio ar y bobl hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig ac, yn benodol, cymryd camau cymesur i liniaru neu gyfiawnhau'r effeithiau mwyaf negyddol a hybu'r rhai cadarnhaol

## Crynodeb

54. Rhoddwyd ystyriaeth i effaith yr alinio arfaethedig yn y ffioedd i gychwyn hawliadau am arian yn erbyn y rhwymedigaethau statudol dan y Ddeddf. Amlinellir y rhain isod.

- **Gwahaniaethu uniongyrchol:** Ein hasesiad ni yw nad yw'r alinio arfaethedig yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf, gan na fydd yn trin neb yn wahanol, ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig. Nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn arwain at fod pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu nodwedd warchoddedig.
- **Gwahaniaethu anuniongyrchol:** Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fo polisi yn gydradd berthnasol i bob unigolyn ond a fyddai'n rhoi rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig dan anfantais benodol o'u cymharu â rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchoddedig honno.

Ein hasesiad ni, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, yw bod alinio'r ffioedd yn annhebygol o fod cyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol. Byddwn yn codi'r un



ffioedd ar bob defnyddiwr, ni waeth a ydynt yn ymgeisio drwy'r trywydd papur neu ar-lein. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai aelwydydd ag un oedolyn 65 oed a drosodd, er enghraifft, sydd â'r gyfran isaf o gysylltiadau â'r rhyngwrwd o hyd.<sup>3</sup> Mae unigolion anabl hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngwrwd i gyfathrebu â chyrrff cyhoeddus. Canfu arolwg ONS yn 2020 ar fynediad i'r rhyngwrwd mai 34% o bobl sy'n cael eu cyfrif yn bobl anabl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd i "gyflwyno ffurflenni wedi'u cwblhau" i gyrrff cyhoeddus o'i gymharu â 37% o'r holl gyfranogwyr. Yn fwy eang, bydd gostyngiadau i'r ffioedd yn dal i fod ar gael i roi gwarchodaeth bellach i unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, gan fod ganddynt gynrychiolaeth ormodol o hyd mewn grwpiau incwm is. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar ddisbarthiad incwm yn y Deyrnas Unedig ar draws unigolion sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn sef ethnigrwydd, anabledd ac oed, yn awgrymu bod y system gostwng ffioedd yn debygol o roi gwarchodaeth i gyfran uwch o unigolion sydd â'r nodweddion gwarchodedig hynny.<sup>4</sup>

Hyd yn oed pe na fyddai'r drefn gostwng ffioedd yn ddigonol i liniaru effaith yr alinio arfaethedig, credwn fod y mesurau'r ydym yn eu cymryd yn annhebygol o arwain at fod neb sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn cael ei roi dan anfantais benodol, o'i gymharu â rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno. At hynny, cred y Llywodraeth fod y cynnig yn ffordd gymesur o gyrraedd nodau dilys yr amcanion polisi a nodir yn yr ymgynghoriad.

- **Gwahaniaethu ar sail anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol:** Cyn belled ag y gallai'r polisi/deddfwriaeth hon effeithio ar hawlwr ag anableddau, credwn fod y polisi yn gymesur, gan ystyried ei nodau. Byddwn yn dal i ddarparu addasiadau rhesymol i hawlwr ag anableddau i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei rhoi.

<sup>3</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol, "Internet Access – households and individuals, Great Britain: 2020", Awst 7<sup>fed</sup>, 2020; ar gael yn <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2020>

<sup>4</sup> Gweler Ystadegau Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau, "Households Below Average Income: An analysis of the UK income distribution: 1994/95-2017/2018", Mawrth 28<sup>ain</sup>, 2019; ar gael yn [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/789997/households-below-average-income-1994-1995-2017-2018.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/789997/households-below-average-income-1994-1995-2017-2018.pdf). 'Mae unigolion yn y cwintel isaf yn fwy tebygol o fod o naill ai gefndir Asiaidd (32%), Du (31%) neu gefndir ethnig arall (30%). Maent yn debygol o fyw mewn aelwyd lle mae oedolyn oed gweithio anabl yn byw (27%) ac maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn sengl gyda phlant (33%) neu'n bensiynwr sengl (29%), yn bensiynwr benyw yn benodol (33%). Awgryma'r data fod unigolion yn yr ail gwintel yn fwy tebygol o fod naill ai o gefndir ethnig Asiaidd (20%) neu Ddu (26%). Maent yn fwy tebygol o fod yn byw â phlentyn anabl (34%) yn ogystal â bod naill ai'n sengl â phlant (34%) neu'n bensiynwr sengl (28%). O ran rhyw, nid oes dim dystiolaeth i awgrymu y ceir gwahaniaeth yn yr effaith ar naill ai ddyonion na menywod.

- **Aflonyddu ac erledigaeth:** Ni chredwn y ceir risg o aflonyddu ac erledigaeth o ganlyniad i'r cynnig hwn.
- **Hybu cyfle cyfartal:** Rhoddwyd ystyriaeth i sut gallai'r cynnig hwn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion pobl sy'n dwyn achosion sy'n rhannu nodwedd benodol, lle bo'r anghenion hynny yn wahanol i anghenion y rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno. Credwn fod y gyfundrefn gostwng ffioedd yn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei hybu i rai sydd â nodweddion gwarchoddedig sy'n dwyn achosion sydd â ffioedd uwch.
- **Meithrin perthnasoedd da:** Ni chredwn fod lle yn y polisi o bennu a chodi ffioedd llys i hybu mesurau sy'n meithrin perthnasoedd da. Am y rhesymau hyn, ni chredwn fod y cynnig hwn yn berthnasol i'r rhwymedigaeth hon.

## Prawf o'r Effaith ar y Gymraeg

- Mae fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon i'w gweld yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

## Casgliadau a'r camau nesaf

55. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus iawn. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd wrth bennu ffioedd llysoedd i roi ystyriaeth i'r egwyddor bod yn rhaid peidio ag atal mynediad i'r llysoedd. Er mwyn gwarchod mynediad at gyfiawnder, mae'n hanfodol bod GLITEM yn dal i gael ei ariannu'n briodol. Bydd yr incwm a godir drwy'r ffioedd y mae defnyddwyr yn eu talu yn chwarae rhan bwysig i ariannu'r system gan ysgafnu'r gost ar drethdalwyr ar yr un pryd.
56. Drwyddi draw, ni chred y Llywodraeth y bydd yr alinio arfaethedig yn atal pobl rhag dwyn achosion. Cydnabyddwn fodd bynnag, y gallai'r alinio o bosibl wneud i rai ymglyfreithwyr ailystyried a ydynt eisiau parhau i gyfreitha yng ngoleuni'r gost a'r posibilrwydd o lwyddo, gan gynnwys y tebygolrwydd o sicrhau dyfarniad yn erbyn yr ymatebydd. Rhagwelwn y bydd alinio'r ffioedd yn cynhyrchu rhwng £9m a £25m y flwyddyn. Mae manylion pellach i'w gweld yn yr Aseidiadau o Effaith sydd ynghlwm ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.
57. Cydnabyddwn y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr ar alinio'r ffioedd ar-lein a'r ffioedd papur ar gyfer gwarantau rheolaeth (Ffi 8.1). Fel y nodir ym mharagraffau 17 a 25, mae'r Llywodraeth wrthi'n gweithio ar nifer o gynlluniau gyda'r nod o wella'r gwasanaeth a ddarperir gan y Llysoedd Sirol i alluogi defnyddwyr i adennill dyledion yn brydlon. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod yr oedi y mae defnyddwyr yn ei wynebu ar hyn o bryd cyn bod gwarantau'n cael eu gorfodi yn sylweddol. Felly, ni fydd y Llywodraeth yn alinio'r ffi gorfodi ar-lein o £77 i lefel uwch y trywydd papur. Yn hytrach, byddwn yn gweithredu cynnydd mwy cymedrol ar sail chwyddiant o 7.7% wedi'i ôl-ddyddio i 2016, sef y tro diwethaf i'r ffi hon gael ei diwygio. Bydd hyn yn arwain at ffi newydd, gyfunol o £83 ar gyfer defnyddwyr papur ac ar-lein.
58. Credwn fod yr ateb hwn yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr, ac amcanion y polisi fel a ddisgrifir yn ein hymarferiad ymgynghori. Credwn hefyd nad yw'r cynigion hyn yn creu rhwystrau penodol rhag bod unigolion yn ceisio cyfiawnder, ac y byddant yn cyfrannu at system llysoedd a thriwlynlysoedd effeithiol sy'n cael ei hariannu'n briodol. Felly, ac eithrio Ffi 8.1, caiff yr holl ffioedd sy'n weddill dan y cynnig hwn eu halinio â lefel y trywydd papur cyfatebol fel a nodir yn yr ymgynghoriad.
59. Mae'r Llywodraeth wedi datgan y mesurau y mae'n bwriadu eu gweithredu yn dilyn yr ymgynghoriad ar ffioedd uwch. Dan y pwerau a geir yn adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, rhaid i'r ffioedd uwch gael eu cyflwyno drwy offeryn statudol yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn

penderfyniad cadarnhaol. Bydd y Llywodraeth felly yn paratoi ac yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, gyda'r bwriad i'r ffioedd newydd ddod i rym ym mis Mai 2021, yn amodol ar fod amser yn cael ei neilltuo yn y Senedd.

# Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio polisiau a deddfwriaeth wedi'u datgan yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/691383/Consultation\\_Principles\\_\\_1\\_\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf)

## Atodlen A – Rhestr o'r ymatebwyr

Emil

James Harvey, Max Engel & Co LLP

David Powell, Support through Court

Helen Patterson, Northumbrian Water

Rob Thompson, Cymdeithas Defnyddwyr y Llys Sifil (CCUA)

Brian Havercroft, CCUA (is-lywydd anrhydeddus)

Lowell Solicitors

TM Legal Service

Allied Factors LTD

Brachers LLP

BW Legal

Ashley Taylors

Southern Water

Anglian Water

Cyngor Cyfiawnder Sifil

Registry Trust

Moriarty Law

Cyngor y Bar

Lovetts Solicitors

Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl

Cabot Credit Management Group/Mortimer Clarke

Dale Griffin, Prifysgol Sheffield

Ffioedd Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar "Alinio'r Ffioedd ar gyfer Hawliadau Sifil am Arian a Hawliadau Meddiannu Arlein ac ar Bapur"







© Hawlfraint y goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd arnoch angen cael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol drwy Polisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ([mojfeespolicy@justice.gov.uk](mailto:mojfeespolicy@justice.gov.uk)).

